# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 7**

TALU A GORFODI

*Adennill*

**169 Achos yn llys yr ynadon**

(1) Pan fo swm perthnasol yn daladwy gan berson ac nad yw'n fwy na £2,000, mae i'w adennill fel dyled sifil drwy broses ynadol.

(2) Caniateir cynnwys pob un neu unrhyw un neu ragor o'r symiau sydd i'w hadennill o dan yr adran hon sy'n daladwy gan unrhyw un person o fewn yr un gŵyn, wŷs, neu ddogfen arall y mae'n ofynnol ei gosod gerbron ynad heddwch neu ei dyroddi ganddo.

(3) Mae pob dogfen o'r fath i'w thrin, mewn cysylltiad â phob swm, fel dogfen ar wahân ac nid yw ei hannilysrwydd mewn cysylltiad ag un swm yn effeithio ar ei dilysrwydd mewn cysylltiad ag unrhyw swm arall.

(4) O ran swm perthnasol sy'n dreth ddatganoledig neu'n gosb, caniateir dwyn achos o dan yr adran hon o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod yn dilyn y diwrnod yr oedd yn ofynnol talu'r dreth ddatganoledig neu'r gosb arno neu'n gynharach.

(5) O ran swm perthnasol sy'n llog ar dreth ddatganoledig neu ar gosb, caniateir dwyn achos o dan yr adran hon o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod yn dilyn y diwrnod yr oedd yn ofynnol talu'r dreth ddatganoledig neu'r gosb arno neu'n gynharach.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru gynyddu'r swm a bennir yn is-adran (1) drwy reoliadau.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

**170 Gorfodi drwy atafaelu nwyddau**

(1) Os nad yw person yn talu swm perthnasol i ACC sy'n daladwy gan y person, caiff ACC ddilyn y weithdrefn yn Atodlen 12 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (p. 15) (atafaelu nwyddau) er mwyn adennill y swm hwnnw.

(2) Yn adran 63(3) o'r Ddeddf honno (asiantau gorfodi), ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"(ba) a person authorised to use the procedure in Schedule 12 by the Welsh Revenue Authority (or by a person to whom the Welsh Revenue Authority has delegated the function of authorising the use of the procedure);".